

Etholiadau i bawb

Profiadau pobl ag anableddau yn etholiad
cyffredinol Senedd y DU ar 8 Mehefin 2017

Tachwedd 2017

Fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Mae fersiynau sain, print bras a chryno hawdd eu darllen ar gael ar ein gwefan

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| Crynodeb | 1 |
| 1 Etholiadau i bawb..... | 2 |
| 2 Sicrhau y gall pawb bleidleisio | 5 |
| 3 Helpu pobl i bleidleisio | 12 |
| 4 Sut mae ymgeiswyr a phleidiau yn dweud wrth bobl amdanynt eu hunain..... | 14 |
| 5 Y cymorth a roddwn mewn etholiadau..... | 16 |
| 6 Enghreifftiau o wledydd eraill | 18 |

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn sôn am gofrestru i bleidleisio a phleidleisio o safbwynt rhywun ag anabledd. Mae'n dweud wrthy ch am y problemau a gaiff pleidleiswyr ag anabledd pan fyddant yn pleidleisio a sut yr hoffent weld pethau'n newid er gwell. Mae hefyd yn dweud wrthy ch beth y dylid ei wneud er mwyn helpu i sicrhau bod etholiadau yn hygyrch i bawb.

- Ni ddylai fod **unrhyw rwystrau** i bleidleisio ar gyfer pobl ag anabledd.
- Dylai fod gan bawb hawl i **bleidleisio ar eu pen eu hunain ac yn gyfrinachol** . Dylai pleidleisio fod yn brofiad da i bawb.
- Nid yw pobl ag anableddau bob amser yn gwybod am eu hawliau pleidleisio. Mae angen iddynt wybod y gallant bleidleisio ac y gallant gael cymorth i bleidleisio.
- Mae angen i **weithwyr gofal a chymorth** wybod sut y gallant helpu'r bobl maent yn gofalu amdanynt pan fyddant yn pleidleisio.
- Mae angen i **bobl sy'n cynnal etholiadau** ddeall anghenion pobl ag anableddau fel y gallant eu helpu a'i gwneud yn haws iddynt gofrestru i bleidleisio, ac i bleidleisio.
- Dylai **ymgeiswyr a phleidiau** sicrhau bod gwybodaeth mewn fformatau hawdd eu darllen a'u bod ar gael mewn da bryd cyn yr etholiad er mwyn i bobl gael amser i'w darllen.
- Pan fydd pleidiau gwleidyddol yn cyhoeddi eu manifestos, dylent sicrhau bod fformatau hygyrch ar gael ar yr un pryd. Dylai pobl ag anabledd gael yr un amser â phawb arall i ddeall beth y mae'r pleidiau yn sefyll drosto. Mae'n bwysig bod pawb yn cael digon o amser i feddwl am eu penderfyniad cyn iddynt bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad.

Dylai'r **Llywodraeth** ystyried ffyrdd gwahanol y gall pobl ag anableddau bleidleisio er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd a dewis iddynt.

Mae'r **Comisiwn Etholiadol** am weithio gyda phobl a sefydliadau er mwyn helpu i sicrhau bod profiad pawb o bleidleisio mor hawdd â phosibl.

1 Etholiadau i bawb

1.1 Hoffem ddiolch i bawb a ddywedodd wrthym am eu profiadau o gofrestru i bleidleisio ac o bleidleisio yn yr etholiad cyffredinol. Clywsom gan bobl ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol yn ogystal â phobl sy'n byw gyda salwch meddwl. **Ni ellid bod wedi ysgrifennu'r adroddiad hwn hebddoch chi.**

1.2 Rydym yn **helpu'r bobl sy'n cynnal etholiadau** i sicrhau y gall pawb gofrestru i bleidleisio a chael profiad da o bleidleisio.

1.3 Ni ddylai fod **unrhyw rwystrau** i bleidleisio ar gyfer pobl ag anabledd. Dylai fod gan bawb hawl i bleidleisio ar eu pen eu hunain ac yn gyfrinachol. Dywedodd rhai pobl wrthym eu bod yn **teimlo nad oeddent yn cael eu cynnwys** mewn etholiadau.

1.4 Rydym am i bleidleisio fod yn brofiad da i bawb. Ond gall pleidleisio fod yn brofiad anodd sy'n codi ofn

- os nad ydych yn gwybod sut i gwblhau'r papur pleidleisio
- os nad ydych yn gwybod pa gymorth sydd ar gael os bydd ei angen arnoch

1.5 Mae'r Comisiwn Etholiadol am weithio gydag unigolion a sefydliadau er mwyn sicrhau bod **profiad pawb** o bleidleisio yn glir, yn hawdd ac yn gyfleus.

1.6 Rydym yn **gweithio gyda sefydliadau anabledd** er mwyn rhoi gwybodaeth mewn fformatau hygyrch i bleidleiswyr am bleidleisio ac am gofrestru i bleidleisio.

Pam rydym wedi ysgrifennu'r adroddiad hwn?

1.7 Ar ôl yr etholiad cyffredinol ar 8 Mehefin, **gwnaethom anfon holiadur** yn gofyn i bobl ag anableddau gwahanol ddweud wrthym am eu profiadau o bleidleisio. Nid oedd hyn wedi'i wneud ers cryn amser. Rydym am wybod am brofiadau pobl ag anableddau heddiw.

1.8 Hefyd, holodd RNIB bobl â nam ar eu golwg am eu profiad o bleidleisio yn yr etholiad cyffredinol. Mae ei ganfyddiadau i'w gweld [yma](#).

1.9 Gwnaethom ofyn i rai sefydliadau ein helpu i ysgrifennu ein holiadur a'i anfon, sef:

- MENCAP ar gyfer pobl ag anableddau dysgu
- SCOPE ar gyfer pobl ag anableddau a'u teuluoedd
- United Response ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, anghenion iechyd meddwl neu anableddau corfforol
- RNIB ar gyfer pobl â nam ar eu golwg
- MIND - elusen iechyd meddwl

- Ymddiriedolaeth GIG Canol a Gogledd-orllewin Llundain
- Inclusion Scotland, y sefydliad i bobl anabl
- Swyddfa'r Cabinet
- Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
- Cymdeithas Aseswyr yr Alban

1.10 Cafodd ein holiadur ei lenwi gan 188 o bobl. Ar ôl yr etholiad, gwnaethom gynnal arolwg mwy. Gwnaethom ofyn i 3,519 o bobl ledled y DU am eu profiad o bleidleisio yn yr etholiad cyffredinol.

1.11 Yn gyffredinol, dywedodd y rhan fwyaf o bobl a lanwodd ein **holiadur** eu bod yn hapus â'r broses o bleidleisio mewn etholiadau. Ond, roedd pobl ag anabledd yn llai tebygol o ddweud bod yr etholiad cyffredinol wedi'i gynnal yn effeithiol – 72% o gymharu â 80% o bobl heb anabledd.

1.12 Yn y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Anabledd Dysgu (5 Medi 2017), lansiodd Chris Skidmore AS, sef Gweinidog Llywodraeth y DU dros y Cyfansoddiad, [**Gais am Dystiolaeth o brofiad pobl ag anableddau o gofrestru i bleidleisio ac o bleidleisio.**](#)

1.13 Mae Mr Skidmore wedi cynnal digwyddiadau gyda phobl ag anableddau gwahanol er mwyn deall eu profiad nhw o bleidleisio.

1.14 Yr adroddiad hwn yw ein hymateb i Mr Skidmore. Mae'n ystyried y broses o gofrestru i bleidleisio ac o bleidleisio o safbwynt rhywun ag anabledd. Mae'n sôn:

- am y problemau maent yn eu hwynebu wrth gofrestru i bleidleisio ac wrth bleidleisio a'u syniadau ynghylch sut y gellir gwella pethau
- beth y gall y Comisiwn ei wneud er mwyn helpu'r bobl sy'n cynnal etholiadau i wneud etholiadau'n fwy hygyrch
- sut mae rhai gwledydd eraill yn helpu pleidleiswyr ag anableddau

Beth nesaf?

1.15 Rydym wedi gwrandao ar brofiadau pobl o gofrestru i bleidleisio ac o bleidleisio.

1.16 Dylai'r Llywodraeth:

- **wneud newidiadau i ffurflenni etholiadau** er mwyn sicrhau y gellir eu deall yn rhwydd
- ystyried ffyrdd gwahanol y gall pobl ag anableddau bleidleisio er mwyn **rhoi mwy o hyblygrwydd a dewis iddynt**
- newid y gyfraith er mwyn sicrhau bod gan bobl ag anableddau **fwy o ddewis ynghylch pwy y gallant fynd gyda nhw i'r orsaf bleidleisio**

1.17 Dylai pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr:

- sicrhau bod y wybodaeth y maent yn ei hanfon yn **hawdd ei darllen**

- sicrhau eu bod yn **cyhoeddi maniffestos hawdd eu darllen ar yr un pryd** fel bod pobl ag anabledd yn cael cymaint o amser â phawb arall i ddeall beth mae'r pleidiau'n sefyll drosto ac i wneud penderfyniad gwybodus
- sicrhau eu bod yn **anfon gwybodaeth mewn da bryd** fel bod pobl yn cael amser i'w darllen.

1.18 Dylai pobl sy'n cynnal etholiadau:

- ystyried ffyrdd y gallant wneud y broses o gofrestru i bleidleisio ac o bleidleisio yn fwy hygyrch
- ystyried gwneud eu **llinell gymorth yn fwy defnyddiol**
- sicrhau eu bod yn **barod i helpu unrhyw un** os byddant yn gofyn am help i bleidleisio

1.19 Mae angen i ofalwyr a gweithwyr cymorth wybod:

- **bod** pobl ag anableddau **yn cael pleidleisio**
- **y gallant helpu'r** bobl maent yn gofalu amdanynt i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio

1.20 Bydd y Comisiwn yn:

- dal i **weithio gyda'r Llywodraeth a sefydliadau anabledd** er mwyn gweld beth y gellir ei wneud i sicrhau bod y broses o gofrestru i bleidleisio ac o bleidleisio yn hygyrch i bawb
- diweddarau'r wybodaeth rydym yn ei rhoi i bobl sy'n cynnal etholiadau a byddwn yn siarad â grwpiau hygyrchedd ynghylch beth ddylai fod ynddi.

2 Sicrhau y gall pawb bleidleisio

2.1 Mae angen i'r bobl sy'n cynnal etholiadau sicrhau y gall pawb gofrestru i bleidleisio a bwrw eu pleidlais mewn etholiadau.

2.2 Dywedodd y rhan fwyaf o bobl ag anableddau wrthym eu bod yn hapus â'r broses o bleidleisio mewn etholiadau. Dywedodd y rhan fwyaf ei bod yn hawdd iddynt wneud y canlynol:

- cofrestru i bleidleisio
- pleidleisio drwy'r post
- pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio

2.3 **Ond nid yw pawb ag anableddau yn cael profiad da. Weithiau, ni allant bleidleisio'n hawdd nac yn gyfrinachol.** Eu safbwyntiau nhw rydym yn eu trafod yn yr adroddiad hwn.

2.4 Mae pobl ag anableddau yn wynebu mathau gwahanol o rwystrau wrth geisio cofrestru i bleidleisio a bwrw eu pleidlais. Nid oes gan rai pobl yr hyder i gofrestru nac i fwrw eu pleidlais. Mae gan rai pobl rwystrau i'w goresgyn cyn gallu bwrw eu pleidlais.

2.5 Rydym yn gweithio gyda sefydliadau anabledd er mwyn rhoi gwybodaeth mewn fformatau hygyrch i bleidleiswyr am gofrestru i bleidleisio ac am bleidleisio. Rydym yn darparu canllawiau hawdd eu darllen mewn etholiadau gyda:

- Mencap
- Enable Scotland
- Mencap Cymru

2.6 Dywedodd pobl wrthym fod y geiriad ar ffurflenni etholiad yn gallu bod yn anodd iddynt ei ddeall. **Ni ellir newid y geiriad ar ffurflenni yn hawdd.** Mae'r gyfraith yn nodi y dylai gael ei ysgrifennu ar:

- y ffurflen gofrestru
- y ffurflen pleidleisio drwy'r post
- y wybodaeth yn yr orsaf bleidleisio
- y papur pleidleisio

2.7 Er mwyn gwneud y geiriad yn haws i'w ddeall, byddai angen i'r Llywodraeth newid y gyfraith. Byddai hyn yn cymryd amser. Fodd bynnag, hoffem i'r Llywodraeth wneud newidiadau er mwyn sicrhau y gall pawb ddeall ffurflenni etholiad yn hawdd.

2.8 Byddai rhai o'r newidiadau y mae pobl wedi dweud wrthym y byddent yn ei gwneud yn haws i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio yn costio mwy o arian. Ond hoffem weld pethau'n newid fel y gall pawb gofrestru i bleidleisio a phleidleisio.

Cofrestru i bleidleisio

2.9 Nid yw cofrestru i bleidleisio'n **hawdd i bawb**. Nid yw rhai pobl yn gwybod p'un a allant gofrestru i bleidleisio, ac nid yw'r rhai sy'n gwybod bob amser yn gwybod sut i wneud hynny.

2.10 Mae pobl sydd ag anabledd dysgu wedi dweud wrthym nad yw'r ffurflen gofrestru (ar-lein ac ar bapur) yn hawdd ei deall: mae **gormod o jargon** ac nid yw'r **ffont a ddefnyddir** yn hawdd ei ddarllen.

2.11 Dywedodd rhai wrthym pan fyddant yn ffonio llinell gymorth eu hawdurdod lleol eu bod yn mynd drwodd i wasanaeth awtomataidd sy'n ddryslyd ac nad yw'n glir beth y dylent ei wneud nesaf.

2.12 Dywedodd rhai pobl y dylent gael eu cofrestru i bleidleisio yn awtomatig. Mae hyn yn golygu y byddai'r person sy'n cynnal y gofrestr yn gwneud hynny ar eu cyfer. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Comisiwn wedi gofyn i'r Llywodraeth ei ystyried.

2.13 Dywedodd pobl wrthym beth fyddai'n ei gwneud yn haws iddynt gofrestru i bleidleisio

- gwybodaeth **hawdd ei darllen** am sut i gofrestru i bleidleisio
- **lluniau** yn dangos beth i'w wneud
- **fideo** yn dangos beth i'w wneud
- **testun mwy o faint**
- ffurflenni cofrestru **hawdd eu darllen**
- **llinell gymorth sy'n ddefnyddiol iawn**

2.14 Roedd ffurflenni cofrestru mewn fformatau [hawdd eu darllen](#) a [phrint bras](#) ar gael yn 2017. Efallai nad yw pawb yn gwybod hyn.

Cardiau pleidleisio

2.15 Cyn etholiad, bydd cerdyn pleidleisio'n cael ei anfon at bobl sy'n gallu pleidleisio. Mae hyn yn dweud wrth bobl ble mae eu gorsaf bleidleisio. Mae hefyd yn dweud wrth bobl a ydynt wedi penderfynu pleidleisio drwy'r post.

2.16 Dywedodd pobl wrthym beth oedd eu barn ar y cerdyn pleidleisio

- roedd y print yn **rhy fach**
- roedd yn defnyddio **geiriau anghyfarwydd** a jargon
- **roedd yn cynnwys map da i ddim** o'r orsaf bleidleisio
- **roedd yn anodd ei ddarllen** gan ei fod yn cynnwys geiriau du ar bapur gwyn

Profiad pobl - Beth y gellid ei wneud i sicrhau bod y wybodaeth yn well i chi?

"Roedd yn **gymhleth** ac yn defnyddio **geiriau anghyfarwydd** ac roedd yn cynnwys geiriau du ar gefndir gwyn sy'n anodd iawn i rywun â dyslecsia a Syndrom Mears-Irlen geisio ei ddarllen".

"Nid oedd y map yn cwmpasu'r ardal ble rwyf yn byw er mwyn dangos lleoliad fy nghartref mewn perthynas â'r orsaf bleidleisio, a dim ond rhan fechan o briffordd yr A230, y byddai angen i unrhyw bleidleiswr o'r ardal hon ei defnyddio er mwyn cyrraedd yr orsaf bleidleisio, oedd i'w gweld mewn un cornel fach ac nid oedd wedi'i labelu. Yn y diwedd, bu'n rhaid i mi ddefnyddio Google Earth er mwyn dod o hyd i'r orsaf bleidleisio".

2.17 Dywedodd pobl wrthym sut y gallai'r cerdyn pleidleisio fod yn well

- **print mwy**
- fersiwn **hawdd ei darllen**
- **lluniau** er mwyn dangos gwybodaeth
- **pwyntiau bwled**
- **fersiynau sain**
- dolenni i wybodaeth ar-lein, fel **fideo** er mwyn dangos i rywun ble i bleidleisio a beth mae angen iddynt ei wneud i bleidleisio

Pleidleisio drwy'r post

2.18 Mae angen i rai pobl bleidleisio drwy'r post am na allant gyrraedd yr orsaf bleidleisio. Dywedodd un person wrthym ei fod yn pleidleisio drwy'r post: "am mai dyna'r opsiwn mwyaf hygyrch i mi. Rwyf wedi fy nghofrestru'n ddall ac nid wyf yn siŵr a fyddai lleoliad neu gynllun yr orsaf bleidleisio yn ei gwneud yn hawdd i mi ganfod fy ffordd."

2.19 Mae ein harolwg mwy yn dangos i ni fod pobl ag anableddau yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi pleidleisio drwy'r post na phobl heb anableddau - 35% o gymharu â 19%. Ond i rai pobl, mae pleidleisio drwy'r post yn creu **rhagor o rwystrau**.

2.20 Dywedodd y rhan fwyaf o bobl ei bod wedi bod yn hawdd iddynt lenwi eu pleidlais bost a'i dychwelyd, ac y gallent bleidleisio ar eu pen eu hunain ac yn gyfrinachol. Ond nid dyna'r achos i bawb.

2.21 Dywedodd rhai pobl a bleidleisiodd drwy'r post wrthym **nad oeddent yn deall y cyfarwyddiadau** ar eu pleidlais bost. Dywedodd pobl eraill fod **gormod o ddarnau o bapur** ac nad oedd yn hawdd gwybod pa rannau o'r pleidlais bost oedd i fod i gael eu rhoi ym mha amlen.

2.22 Mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid anfon gwybodaeth at bobl sy'n pleidleisio drwy'r post am sut y gallant gael gafael ar y canlynol

- **cyfieithiadau i ieithoedd eraill** o unrhyw gyfarwyddiadau a anfonir gyda'r papur pleidleisio
- **cyfieithiad i Braille** o'r cyfarwyddiadau
- **cynrychioliad graffigol** o'r cyfarwyddiadau
- y cyfarwyddiadau **ar unrhyw ffurf arall** (yn cynnwys sain)

2.23 Ond **nid yw rhai pobl yn gwybod bod opsiynau eraill ar gael.**

Dywedodd un person wrthym nad oedd yn gwybod y gallai ofyn am gael ei gyfarwyddiadau pleidleisio drwy'r post mewn fersiwn hawdd ei darllen neu mewn print bras.

Profiad pobl - Beth y gellid ei wneud er mwyn sicrhau bod pleidleisio drwy'r post yn well ac yn fwy hygyrch i chi?

"Mae cyfarwyddiadau pleidleisio drwy'r post yn **ddryslyd ac yn anodd eu dilyn** ac nid yw papurau pleidleisio drwy'r post ar gael mewn fformatau eraill ar gyfer pobl sydd â Syndrom Mears-Irlen".

2.24 Mae pobl wedi dweud wrthym sut y gellid gwneud y broses o bleidleisio drwy'r post yn haws

- fersiynau **sain** o'r cyfarwyddiadau yn dweud wrth bobl sut i lenwi eu pleidlais bost a'i dychwelyd
- **gwybodaeth ddigidol ar-lein** yn dangos sut i wneud cais am bleidlais bost a phleidlais drwy ddirprwy, a sut i lenwi'r bleidlais bost
- **gwybodaeth gliriach** er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod y gallant ofyn am fersiynau eraill o'r cyfarwyddiadau pleidleisio drwy'r post
- fersiwn **hawdd ei darllen** o'r cyfarwyddiadau pleidleisio drwy'r post
- **lluniau a symbolau**
- **cyfarwyddiadau cliriach** ar beth i'w wneud a **llai o jargon**
- defnyddio **lliwiau gwahanol** er mwyn gwneud y wybodaeth yn haws ei darllen

Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

2.25 Dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod yn hapus â'r broses o bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio, **ond y gellid ei gwella.**

2.26 Rydym wedi clywed am adegau lle nad yw rhywun ag anabledd wedi gallu pleidleisio. Roeddent wedi mynd i'r orsaf bleidleisio ac wedi cael eu **hanfon ymaith** neu wedi cael gwybod **na fyddent yn gallu mynd i mewn.** Dywedodd pobl eraill eu bod wedi teimlo'n **anghyfforddus** wrth bleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio.

Mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio

2.27 Mae gorsafydd pleidleisio'n fwy hygyrch erbyn hyn, ond mae rhai gorsafydd pleidleisio o hyd nad ydynt yn hygyrch. Ni all rhai pobl fynd i mewn iddynt.

2.28 Canfu ein harolwg mwy fod 5% o bobl ag anabledd wedi dweud ei bod yn anodd iddynt fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio. Ni ddywedodd unrhyw un heb anabledd ei bod yn anodd mynd i mewn.

Profiad pobl: Beth y gellid ei wneud er mwyn sicrhau bod yr orsaf bleidleisio yn well ac yn fwy hygyrch i chi?

"Mae gen i M.E. ac rwy'n defnyddio baglau i gerdded. Roedd **grisiau wrth ddrws yr orsaf bleidleisio** er mwyn mynd i mewn ac yna fwy o risiau yn arwain at yr ystafell a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer yr etholiad. Nid oedd **unrhyw arwyddion o unrhyw fynedfa i bobl anabl.**"

"Rwy'n ffodus bod fy ngorsaf bleidleisio leol yn hygyrch, ac os na fyddai'n hygyrch, y gallaf gwblhau pleidlais bost yn annibynnol, ond **ni all llawer o'm ffrindiau fynd i mewn i'w gorsaf oedd pleidleisio nhw.** Er bod pleidleisio drwy'r post yn opsiwn pwysig a gwerthfawr (yn enwedig ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl) dylai'r teimlad o fwrw pleidlais mewn blwch pleidleisio go iawn fod yn ar gael ac yn **hygyrch i bawb.**"

Y tu mewn i'r orsaf bleidleisio

2.29 Mae a wnelo hygyrchedd â mwy na dim ond mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio a phobl ag anabledd 'gweledol'. Mae pobl ag anableddau gwahanol yn cael problemau unwaith y byddant y tu mewn. Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd symud o amgylch y tu mewn i'r orsaf bleidleisio. Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd llenwi eu papur pleidleisio.

Profiad pobl: Beth y gellid ei wneud er mwyn sicrhau bod y broses bleidleisio yn well i chi?

"Nid oes dim er mwyn helpu pobl awtistig i wybod bod llefydd yn hygyrch i ni hefyd. Er enghraifft, rhybuddion ynghylch **goleuadau fflachiog** neu sŵn peiriannau uchel mewn lleoliad. Yr unig bobl sy'n cael canllawiau ysgrifenedig yw defnyddwyr cadeiriau olwyn, pobl ddall, pobl fyddar neu bobl ag anableddau dysgu. Nid oes dim yn cael ei ysgrifennu ar gyfer y 2 filiwn o bobl awtistig. Ac **nid yw'r rhan fwyaf o staff yn gwybod sut i helpu pobl awtistig**, dim ond pobl ag anableddau dysgu. Mae hynny'n beth gwahanol."

2.30 Dyma rai o'r pethau a ddywedodd pobl wrthym ynghylch pam ei bod yn anodd iddynt bleidleisio pan roeddent y tu mewn i'w gorsaf bleidleisio. Gwnaethant ddweud:

- roedd yn **rhy swnllyd ac roedd gormod o bobl y tu mewn** a wnaeth eu rhoi dan bwysau ac ar bigau'r drain
- **nid oedd y bwth pleidleisio yn ddigon llydan** ar gyfer eu cadair olwyn
- nid oedd staff yn gwybod sut i ddefnyddio'r ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy neu ni wnaethant ei chynnig i bobl a allai fod ei hangen
- nid oedd pobl yn gwybod y gallent ofyn am ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy

- gallai staff neu bleidleiswyr eraill weld sut roedd pobl yn pleidleisio – **ni allent bleidleisio yn gyfrinachol**
- **ni allai pobl bleidleisio ar ben eu hunain**
- nid oedd y staff yn gymwynasgar nac yn gyfeillgar
- roedd yn anodd gafael yn y pensil
- nid oedd y papur pleidleisio print bras yn ddefnyddiol
- **nid oedd y cyfarwyddiadau yn ddigon clir** ynghylch sut i bleidleisio

Profiad pobl: Pa help a chymorth ychwanegol, os o gwbl, fydddech chi'n hoffi ei gael wrth bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio?

"Mwy o le i symud o amgylch. Roedd y gofod cul yn golygu bod pobl yn taro i mewn i mi drwy'r adeg. Hefyd, dylai'r staff wybod sut i dynnu'r ddyfais gyffyrddadwy ar ôl i mi fwrw fy mhleidlais er mwyn sicrhau cyfrinachedd."

2.31 Canfu ein harolwg mwy fod pobl ag anabledd a ddywedodd wrthym eu bod wedi'i chael hi'n anodd llenwi eu papur pleidleisio wedi nodi mai'r rheswm dros hynny oedd am nad oedd help, dyfais bleidleisio gyffyrddadwy na fformat print bras ar gael iddynt.

2.32 Dywedodd pobl fod newidiadau y gellir eu gwneud i'r tu allan a'r tu mewn i'r orsaf bleidleisio er mwyn gwneud pethau'n haws:

- sicrhau bod yr **adeilad yn hygyrch**
- **goleuo da**
- **cyfarwyddiadau clir** ynghylch sut i bleidleisio
- staff sy'n gwybod beth sydd ei angen ar bobl ag amrywiaeth o anableddau i bleidleisio
- pensiliau mwy sy'n haws gafael ynddynt

Ffyrdd eraill o bleidleisio

2.33 Gwyddom nad yw pawb yn cael yr un profiad wrth gofrestru i bleidleisio ac wrth bleidleisio. Rydym o'r farn y dylai'r Llywodraeth ystyried ffyrdd gwahanol y gall pobl ag anableddau bleidleisio er mwyn rhoi mwy o **hyblygrwydd a dewis** iddynt. Byddai hyn yn golygu y byddai pobl yn gallu dewis pa ffordd o bleidleisio sy'n diwallu eu hanghenion.

2.34 Dywedodd pobl wrthym y byddai'n haws iddynt bleidleisio ar-lein. Ond byddai angen i'r bobl sy'n cynnal etholiadau fod yn siŵr ei bod yn ddiogel cyn y gallai hyn ddigwydd. Mae hyn yn golygu y dylai'r Llywodraeth ystyried ffyrdd eraill o bleidleisio fel:

- **dewis** pa orsaf bleidleisio i bleidleisio ynddi
- pleidleisio ar **ddiwrnodau heblaw am ddydd lau**, er enghraifft ar y penwythnos
- pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio symudol mewn **ysbytai, cartrefi nyrsio neu gartrefi gofal** ac mewn **ardaloedd anghysbell**

2.35 Byddem yn hapus i weithio gyda'r Llywodraeth a sefydliadau anabledd er mwyn gweld pa ddulliau sy'n gweithio orau. Rhaid i unrhyw ffyrdd newydd o bleidleisio sicrhau **y gall pobl bleidleisio'n gyfrinachol a thros bwy bynnag y mynnont.**

3 Helpu pobl i bleidleisio

3.1 Dywedodd y rhan fwyaf o bobl a lanwodd ein holiadur eu bod yn gwybod y gallent bleidleisio mewn etholiadau. Ond **nid oedd rhai pobl yn gwybod y gallent fynd â rhywun gyda nhw i'r orsaf bleidleisio er mwyn eu helpu nac y gallai staff yr orsaf bleidleisio eu helpu.**

Profiad pobl: Pa help ychwanegol y byddech yn hoffi ei gael wrth bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio?

"Gwybodaeth yn nodi y gallant helpu a beth y gellir ei ddisgwyl. Nid oes dim i ddweud pa help y gallant neu na allant ei gynnig."

3.2 Gall person ag anabledd corfforol neu weledol fynd â rhywun gydag ef i'r orsaf bleidleisio er mwyn ei helpu i bleidleisio. Nodir pwy y gallant fynd gyda nhw yn y gyfraith. Mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid i'r person fod:

- yn rhywun sydd â hawl i bleidleisio fel etholwr yn yr etholiad, neu
- tad, mam, brawd, chwaer, priod, partner sifil, mab neu ferch y pleidleisiwr sydd dros 18 oed

3.3 I rai pobl, mae hyn yn ei gwneud yn anoddach iddynt ddod o hyd i rywun a all fynd gyda nhw i bleidleisio. Rydym o'r farn:

Y dylai'r Llywodraeth newid y gyfraith er mwyn sicrhau bod gan bobl ag anableddau fwy o ddewis ynghylch pwy y gallant fynd gyda nhw i'r orsaf bleidleisio.

3.4 Mae angen sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn gwasanaethau gofal sy'n dweud wrth weithwyr cymorth sut y gallant sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth gywir am sut i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio. Dylai hefyd ddweud wrthynt sut y gallant helpu rhywun i wneud hyn.

3.5 Rhaid i bobl sy'n rhedeg yr orsaf bleidleisio sicrhau ei bod yn hygyrch i bawb a bod yn barod i helpu unrhyw un os byddant yn gofyn am help i bleidleisio.

3.6 Dywedodd pobl ag anableddau wrthym bod angen **gwell ymwybyddiaeth:**

- ynghylch y cymorth sydd ar gael er mwyn helpu pleidleiswyr ag anableddau: mae angen i bleidleiswyr ag anableddau wybod y gallant gael cymorth pan fyddant yn cofrestru i bleidleisio ac yn pleidleisio
- mae angen i ofalwyr a gweithwyr cymorth wybod sut y gallant helpu'r bobl maent yn gofalu amdanynt i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio
- mae angen i bobl sy'n cynnal etholiadau wybod pa gymorth a help sydd ar gael i bobl ag anableddau

3.7 Gwnaethant ddweud y dylai fod:

- mwy o **wybodaeth am yr help y gall pobl ofyn amdano** pan fyddant yn pleidleisio drwy'r post, drwy ddirprwy neu mewn gorsaf bleidleisio
- mwy o wybodaeth i bobl sy'n rhedeg yr orsaf bleidleisio
- **gwybodaeth hygyrch am yr help y gall pobl ofyn amdano** pan fyddant yn pleidleisio drwy'r post, drwy ddirprwy neu mewn gorsaf bleidleisio
- gwybodaeth hygyrch ar gael i **ofalwyr a gweithwyr cymorth**
- **newid yn y gyfraith** fel y gall mwy o bobl fynd gyda rhywun i'w helpu i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio.

4 Sut mae ymgeiswyr a phleidiau yn dweud wrth bobl amdanynt eu hunain

"Mae 1 filiwn o bleidleiswyr ag anabledd dysgu yn wynebu risg o gael eu hanwybyddu os bydd pleidiau gwleidyddol yn methu â llunio Maniffestos hygyrch" – Mencap, 5 Mai 2017

4.1 Mae ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn anfon gwybodaeth er mwyn gofyn i bobl bleidleisio drostynt. Dywedodd pobl wrthym nad ydynt bob amser o'r farn bod y wybodaeth a gânt gan ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn hawdd ei darllen na'i deall: **"roedd yn rhy gymhleth i mi"**.

4.2 Roedd hyn am fod y wybodaeth a ddefnyddiwyd yn cynnwys **geiriau cymhleth, jargon, ffont o faint bach**, a'i bod wedi'i **ddylunio** a'i **chynllunio'n wael**.

4.3 Dywedodd pobl y dylai gwybodaeth gan ymgeiswyr a phleidiau:

- fod mewn fformat **hawdd ei ddarllen**
- cynnwys mwy o **luniau**
- defnyddio **geiriau eglur a syml**
- defnyddio **llai o eiriau**
- defnyddio **print bras**
- defnyddio **lliw** er mwyn eu helpu i ddarllen adrannau gwahanol o destun
- bod ar gael mewn **fformat sain**
- bod ar gael **ar-lein**
- gael ei hanfon drwy **e-bost**
- gael ei hanfon **ar bapur**

4.4 Dywedodd pobl hefyd y byddent yn hoffi **cael gwybodaeth yn gynt** er mwyn cael mwy o amser i'w darllen a phenderfynu pwy y dylent bleidleisio drostynt. Roedd pleidiau yn cyhoeddi eu maniffestos mewn da bryd cyn yr etholiad, ond nid oedd eu **fersiynau hawdd eu darllen bob amser ar gael tan yn ddiweddarach** ac yn aml yn agos iawn at Ddiwrnod yr Etholiad. Gweler y tabl isod.

4.5 Mae deunydd hawdd ei ddarllen yn gwneud iaith gymhleth ac anodd yn hygyrch. Mae angen i bobl ddeall beth mae'r pleidiau yn ei addo fel y gallant wneud penderfyniad gwybodus ynghylch pwy y dylent bleidleisio drostynt.

Tabl 1: Dyddiadau cyhoeddi manifestos pleidiau

| Plaid | Cyhoeddi manifesto | Cyhoeddi fersiwn hawdd ei darllen | Diwrnodau cyn Etholiad Cyffredinol 2017 y cyhoeddwyd y fersiwn hawdd ei darllen |
|------------------|---------------------------|--|--|
| Dem Rhydd | 17 Mai | 17 Mai | 22 |
| Y Blaid Werdd | 22 Mai | 22 Mai | 17 |
| Llafur | 16 Mai | 24 Mai | 15 |
| Plaid Cymru | 16 Mai | 31 Mai | 8 |
| Ceidwadwyr | 18 Mai | 1 Mehefin | 7 |
| SNP ¹ | 30 Mai | 2 Mehefin | 6 |

4.6 Roedd y ffaith bod manifestos rhai pleidiau yn hwyr yn cael eu cyhoeddi hefyd yn golygu bod gweithwyr cymorth **wedi cael llai o amser i ddweud** wrth y bobl roeddent yn eu helpu beth roedd y pleidiau yn sefyll drosto, fel y gallent ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn penderfynu pwy i bleidleisio drostynt.

4.7 Mae pobl wedi dweud wrthym y dylai pleidiau gwleidyddol gyhoeddi **fformatau hygyrch o'u manifestos ar yr un pryd** fel bod pobl ag anabledd yn cael cymaint o amser â phawb arall i ddeall beth mae'r pleidiau'n sefyll drosto ac i wneud penderfyniad gwybodus.

4.8 Dywedodd rhai pobl ei bod yn anoddach iddynt benderfynu sut i bleidleisio os oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro – "**mae'n anodd iawn penderfynu os byddaf yn cael fy rhuthro**". Dywedodd pobl hefyd fod yn rhaid i wybodaeth fod mewn fformatau hygyrch a'u bod ar gael mewn da bryd cyn yr etholiad er mwyn i bobl gael amser i'w darllen.

4.9 Awgrymodd rhai pobl hefyd y dylai ymgeiswyr a phleidiau gwrdd â phobl ag anableddau gwahanol er mwyn dweud wrthynt yn bersonol beth maent yn sefyll drosto – "**mae angen cael gwybodaeth am beth y bydd pob plaid yn ei wneud ar gyfer pobl ag anableddau dysgu**."

¹ Oedd yr SNP am wythnos cyn lansio ei manifesto oherwydd y gwaharddiad ar ymgyrchu yn dilyn yr ymosodiad terfysgol yn Arena Manceinion

5 Y cymorth a roddwn mewn etholiadau

5.1 Yn y Cais am Dystiolaeth, mae'r Gweinidog, Chris Skidmore AS, yn holi ynghylch beth mae pobl a sefydliadau yn ei wneud er mwyn helpu pobl ag anableddau i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio mewn etholiadau.

5.2 Rydym yn helpu'r bobl sy'n cynnal etholiadau i sicrhau y gall pawb gofrestru i bleidleisio a chael profiad da o bleidleisio. Rhaid i'r sawl sy'n cynnal yr etholiadau gynnig gwybodaeth mewn fformatau gwahanol fel:

- cardiau pleidleisio
- ffurflenni pleidleisio drwy'r post
- ffurflenni pleidleisio drwy ddirprwy

5.3 Maent yn cynnig gwybodaeth, er enghraifft:

- ar ffurf sain
- mewn braille
- mewn fformat hawdd ei ddarllen
- mewn print bras
- yn iaith arwyddion Prydain
- drwy gymorth dros y ffôn (yn cynnwys ffôn testun a negeseuon testun)

5.4 Rydym yn rhoi gwybodaeth am bleidleisio i'r bobl sy'n cynnal etholiadau y gallant ei rhoi i weithwyr cymorth a gofalu, fel y gallant helpu'r bobl maent yn gweithio gyda nhw i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio.

5.5 Mae pobl sy'n cynnal etholiadau yn sicrhau bod y gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch i bawb, yn cynnwys pleidleiswyr ag anabledd. Er mwyn eu helpu, rydym yn rhoi'r canlynol iddynt:

- [llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio](#) sy'n rhoi gwybodaeth am sut i redeg yr orsaf bleidleisio.
- [gwybodaeth](#) y gellir ei defnyddio i hyfforddi staff
- [rhestrau gwirio](#) er mwyn sicrhau bod yr orsaf bleidleisio'n hygyrch

5.6 Er enghraifft, mae ein rhestr wirio gorsafoedd pleidleisio yn rhoi gwybodaeth am bethau y mae angen iddynt ei wneud, fel :

- arwyddion a mynedfeydd i orsafoedd pleidleisio
- meysydd parcio
- mynediad gwastad i'r orsaf bleidleisio
- y cynllun y tu mewn i'r orsaf bleidleisio, yn cynnwys goleuo da
- bythau pleidleisio a blychau pleidleisio lefel isel
- arddangos gwybodaeth i bleidleiswyr am sut i bleidleisio
- papurau pleidleisio print bras a chopïau llaw enghreifftiol

- dyfeisiau pleidleisio cyffyrddadwy at ddefnydd pobl ddall neu bobl â golwg rhannol
- seddi ar gyfer y sawl sydd eu hangen

5.7 Rydym yn dweud wrth bobl sy'n cynnal etholiadau y dylai'r bobl sy'n gweithio yn yr orsaf bleidleisio:

- sicrhau y dylai'r templed pleidleisio cyffyrddadwy fod ar gael bob amser
- sicrhau y gallant ddefnyddio'r ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy
- gwybod sut y gallan nhw a chydymaith helpu rhywun i lenwi ei bapur pleidleisio

5.8 Mae gennym **linell gymorth y gall pobl ei ffonio os byddant yn cael problemau wrth gofrestru i bleidleisio ac wrth bleidleisio**. Cawsom alwadau gan bobl ychydig cyn diwrnod yr etholiad ac ar ddiwrnod yr etholiad yn nodi nad oeddent yn gallu pleidleisio, er enghraifft, pobl sy'n defnyddio cadair olwyn nad oeddent yn gallu myn di mewn i'w gorsaf bleidleisio. Rydym yn dweud wrth bobl am gysylltu â'r bobl sy'n cynnal yr etholiad yn eu hardal leol.

5.9 Ar ôl pob etholiad, byddwn yn ystyried **pa mor dda y gwnaeth y bobl a oedd yn cynnal yr etholiadau a ph'un a oeddent yn hygyrch i bawb**. Byddwn yn ystyried:

- p'un a oedd gwybodaeth hygyrch am sut i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio
- p'un a gafodd pobl wybodaeth mewn fformatau hygyrch
- p'un a gafodd pobl wybodaeth mewn da bryd er mwyn iddynt allu pleidleisio
- p'un a oedd y gorsaf oedd pleidleisio yn gwbl hygyrch

5.10 Rydym wedi gwrandao ar beth mae pobl wedi'i ddweud wrthym a byddwn yn diweddarau'r wybodaeth rydym yn ei rhoi i'r bobl sy'n cynnal etholiadau a byddwn yn siarad â grwpiau hygyrchedd ynghylch beth ddylai fod ynddi.

6 Enghreifftiau o wledydd eraill

6.1 Dyma rai enghreifftiau (yn yr iaith wreiddiol) o wledydd eraill ynghylch sut maent yn ceisio sicrhau bod etholiadau yn hygyrch i bawb. Gallwn ni, ynghyd â phobl sy'n cynnal etholiadau, ymgrychwr a phleidiau gwleidyddol a'r Llywodraeth ddysgu o'r hyn maent yn ei wneud.

Awstralia - Victorian Electoral Commission

Mae ganddo [Gynllun gweithredu anabled](#) er mwyn sicrhau bod y broses o gofrestru i bleidleisio ac o bleidleisio yn hygyrch i bobl Victoria sy'n byw gydag anabled, er enghraifft.

Disability Action Plan

The goal of this Disability Action Plan is to improve access to enrolment and voting for Victorians living with a disability.

This Disability Action Plan has six key strategies:

1. Improve physical access to enrolment and voting.
2. Develop partnerships with people and peak bodies to facilitate improved access to enrolment and voting.
3. Improve the accessibility and clarity of information on enrolment and voting.
4. Provide for more Victorians to have a secret, independent vote.
5. Improve staff awareness and assistance to people living with a disability.
6. Improve the VEC's capacity to employ and appropriately task people living with a disability.

Performance measures have been included for each action relevant to each strategy. In addition, outcome measures have been included for each strategy.

Our Disability Action Plan

- [Disability Action Plan 2016–2019](#) (PDF, 473kB)
- [Disability Action Plan 2016–2019](#) (Word, 486kB)

Hefyd, mae ganddo lawer o wybodaeth er mwyn sicrhau y gall pawb bleidleisio.

Mae ganddo [amrywiaeth o wasanaethau ac adnoddau](#) er mwyn sicrhau na chaiff yr hawl i bleidleisio ei chyfyngu gan iaith, anabled neu amgylchiadau sydd ar gael ar ei wefan.

Assistance for voters

The VEC provide a range of services and resources to ensure that the right to vote is not limited by language, disability or circumstance.

The VEC's vision is 'all Victorians actively participating in their democracy'.

- [Languages other than English](#)
- [Voting aids](#)
- [Mobile voting and voting outside a voting centre](#)
- [Assistance and accessibility at voting centres](#)
- [Voters voice app](#)
- [Easy English guides on voting](#)

Enrolment and voting advice for carers

Enrolment and voting advice is available for families and carers of people with a cognitive disability or impairment:

- [Enrolment and voting advice for carers](#) (PDF, 279kB)
- [Enrolment and voting advice for carers](#) (Word, 328kB)

Australian Electoral Commission

Caiff pobl sy'n cynnal etholiadau eu hanfon i helpu pobl na allant gyrraedd eu gorsaf bleidleisio. Maent yn gwneud hyn cyn diwrnod yr etholiad ac ar ddiwrnod yr etholiad.

Gall pobl hefyd bleidleisio mewn rhai ysbytai, cartrefi nyrsio, carchardai ac ardaloedd anghysbell o Awstralia.

Awstralia - New South Wales Electoral Commission

Ceir gwybodaeth ddefnyddiol ar ei wefan sy'n dweud wrth bobl pa help y gallant ei gael [cyn y diwrnod pleidleisio](#) ac [yn yr orsaf pleidleisio](#).

Voting Assistance Before Election Day

Languages other than English

A free telephone interpreter service is available to electors who require information in their language. Call 13 14 50 and an operator will arrange for an interpreter to join in a three-way conversation with an election official to ensure the elector receives answers to their questions.

The NSWEC also advertises in major multicultural media during the State election period.

For Local Government elections, each council determines the level of service and information provided in languages other than English.

General information on enrolling, elections and voting is also available to download in a number of community languages. Please see our [assistance in your language](#) page for more details.

For Hearing or Speech Impaired

If you are deaf, or have a hearing or speech impairment, contact us through the National Relay Service:

TTY users phone 133 677 then ask for 1300 135 736

Speak and Listen users phone 1300 555 727 then ask for 1300 135 736

Internet relay users [connect to the National Relay Service](#) and then ask for 1300 135 736

Blind and low vision electors

Electronically assisted voting

The NSWEC will provide electronically assisted voting to enable blind and low vision electors to cast a vote at the State election without the assistance of others. The two methods available include telephone voting and an on-line system.

For more information please see [iVote](#).

Accessibility

One factor in assessing the appropriateness of each facility is how accessible it is for people with mobility difficulties including the level of wheelchair accessibility. Where the relevant Australian standards are completely met the venue is classified as fully wheelchair accessible, where most of the criteria are met it is classified as assisted wheelchair access.

The level of accessibility of these venues is displayed as follows:



full wheelchair access



assisted wheelchair access

Canada - Elections British Columbia

Ceir ffurflenni adborth yn y gorsafoedd pleidleisio er mwyn holi pobl am eu profiad o bleidleisio fel y gall wella pethau: [ffurflen adborth ar hygyrchedd y man pleidleisio](#).



VOTING PLACE ACCESSIBILITY FEEDBACK FORM

3021
(16/08)

PLEASE PRINT IN BLOCK LETTERS

Your feedback is important to us, and we want to hear and learn from you. Elections BC is committed to making your voting experience as accessible and positive as possible so that you can focus on casting your ballot.

| CONTACT INFORMATION (IF YOU WISH TO BE ANONYMOUS, LEAVE THIS SECTION BLANK) | |
|---|-------|
| NAME | |
| PHONE NUMBER | EMAIL |

Would you like Elections BC to follow up with you about your feedback? Yes No

| VOTING PLACE INFORMATION | |
|---|------|
| ELECTORAL DISTRICT | |
| VOTING PLACE | CITY |
| DATE AND TIME YOU ATTENDED THE VOTING PLACE | |

| VOTING PLACE FEEDBACK | | |
|--|------------------------------|-----------------------------|
| Were you able to vote independently and privately? | <input type="checkbox"/> Yes | <input type="checkbox"/> No |
| At the voting place, were you satisfied with the accessibility of the following? | | |
| Parking | <input type="checkbox"/> Yes | <input type="checkbox"/> No |
| Exterior walkways, ramps, entrances, doors | <input type="checkbox"/> Yes | <input type="checkbox"/> No |
| Interior routes and the voting area | <input type="checkbox"/> Yes | <input type="checkbox"/> No |
| Washroom | <input type="checkbox"/> Yes | <input type="checkbox"/> No |
| Did you use any of the following tools? | | |
| Braille List of Candidates | <input type="checkbox"/> Yes | <input type="checkbox"/> No |
| Plastic template to help you mark your ballot | <input type="checkbox"/> Yes | <input type="checkbox"/> No |
| Enlarged poster of the ballot | <input type="checkbox"/> Yes | <input type="checkbox"/> No |

Elections Canada

Gall pobl sy'n byw mewn ysbytai a chartrefi gofal bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio symudol yn eu preswylfa.

Canada - Elections Ontario

Mae tudalen bleidleisio hygyrch ar ei wefan er mwyn dweud wrth bobl am y ffyrdd gwahanol y gallant bleidleisio fel y gall pawb bleidleisio. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut i bleidleisio gartref gyda help rhywun ac yn yr ysbyty.



Accessible Voting


We strive to make voting accessible to all voters. Below is a list of the different voting methods we have available so that voting can be an inclusive experience for all voters.


If you require any information or voting resources in an accessible format, please contact us using the details below and we will be happy to provide these.


Phone: 1-888-668-8683


TTY: 1-888-292-2312


Email: info@elections.on.ca

 Assistive Voting Technology

 Assistance on election day

 Vote by mail

 Vote by home visit

 Voting while in hospital (general election only)

Cynllun Hygyrchedd Aml-flwyddyn 2017 – 2021

Mae'r cynllun yn ystyried beth y bydd Elections Ontario yn ei wneud er mwyn sicrhau bod etholiadau'n fwy hygyrch. Mae'n ystyried pum categori:

- **Gwasanaeth Cwsmeriaid** – darparu gwasanaeth cwsmeriaid hygyrch i bobl ag anableddau fel y gallant fanteisio ar yr un nwyddau a gwasanaethau â phawb arall.
- **Gwybodaeth a Chysylltiadau** – creu, darparu a derbyn gwybodaeth a chysylltiadau mewn ffyrdd sy'n hygyrch i bobl ag anableddau.

- **Cyflogaeth** – bydd cyflogwyr yn cynnwys arferion hygrychedd ar gyfer cyflogeion ym mhob cam o'r cylch cyflogaeth yn cynnwys recriwtio, asesu a dethol.
- **Cludiant** – bydd darparwyr gwasanaeth cludiant yn sicrhau bod eu gwasanaethau a'u cerbydau yn hygrych.
- **Dylunio Mannau Cyhoeddus** – bydd manau cyhoeddus sydd newydd gael eu dylunio neu eu hadnewyddu yn cynnwys nodweddion hygrychedd penodol, a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bawb (pobl ag anableddau, pobl oedrannus a theuluoedd) eu defnyddio.